



papur



priordy



**O DAD, YN DEULU DEDWYDD - Y DEUWN
Â DIOLCH O NEWYDD,
CANS O'TH LAW Y DAW BOB DYDD
EIN LLUNIAETH A'N LLAWENYDD.**

W D WILLIAMS (1900-85)

*Dewiswyd gan Angharad Wyn
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 337
PAPUR HYDREF 2020**

Nodyn byr gan ein Gweinidog

Arferion

ARFERION. Mae rhai ohonynt yn medru bod yn rhai da, ond eraill yn ddrwg! Mae'n siŵr gen i bod y naill a'r llall yn perthyn i bob yr un ohonom. Mae'n debyg bod y cyfnod clo wedi magu mwy o arferion drwg ynom!

Does dim amheuaeth fod y cyfnod clo a'r sefyllfa rydyn ni ynddi ers canol Mawrth wedi cynyddu'r lefelau straen yn y gorau o bobl. Ac er mwyn ymdopi â'r straen a'r gofid, yn ôl un ymchwil diweddar, rydyn ni wedi magu arferion newydd, a dyw rheini ddim bob amser yn rhai da!



Bwyta bwydydd sy'n ein cysuro yw un ohonyn nhw! Bwydydd o'n plentyndod, neu fwydydd rydyn ni'n eu cysylltu â chyfnodau o'n bywyd pan oedd ein hemosiynau'n dawel a heddychlon. A chredwn fod eu bwyta yn ein tawelu, ac yn ein rhoi mewn hwyl dda.

Arfer gwael arall dros y cyfnod clo oedd byw gyda'n trwynau'n sownd wrth ein sgriniau bach! Ymgolli'n llwyr am oriau maith yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae gwneud hyn hefyd yn troi'n meddyliau oddi ar bwysau bywyd.

Arfer arall yw diffyg trefn a disgyblaeth - y rwtîn dyddiol dros y lle i gyd! Sawl gwaith ydw i wedi clywed rhieni'n dweud ers dechrau'r tymor newydd ei bod yn neis bod yn ôl mewn rwtîn!

A sawl un sydd wedi llithro i'r arfer gwael yn ystod y cyfnod clo o beidio â gwneud digon o ymarfer corff?

Ie, mae'r hen gyfnod hwn wedi arwain ar fagu nifer o arferion drwg.

Ond byddwch yn garedig i'ch hunan. Rydyn ni i gyd yn ei chael hi'n anodd i droedio drwy'r sefyllfa hon.

Rydyn ni i gyd yn addasu yn ôl yr hyn a welwn yn dda, Ond oni

ddylen ni, wrth osod disgwyliadau i'n hunain, fod yn garedig i'n hunain hefyd?

Efallai nad ydych yn cyflawni'r hyn roeddech yn llwyddo i'w gyflawni chwe mis yn ôl, mae hynny'n ddealladwy.



Ond os ydych chi wedi dod ag elfen o lawenydd i'r rhai sydd o'ch amgylch, wel mae hynny'n dipyn o gamp yn ei hunan.

Mae un weithred o garedigrwydd neu gymwynasgarwch yn gwneud byd o ddaioni i'n cyflwr meddyliol a ffisegol.



MAE Covid-19 wedi dod â llawer o ofidiau gydag e, ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen gystal ag y gall, ac ymlaen y dylsen ninnau fynd hefyd, gystal ag y medrwn.

Gweddiwn

Mewn tywyllwch a goleuni,
mewn trallod a llawenydd,
cynorthwya ni nefol Dad,
i ymddiried yn dy gariad,
i hyrwyddo dy fwriad,
ac i foli dy enw,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,



Amen

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com



DYCHWELYD AR ÔL CHWE MIS!



MAWR oedd y cyffro ar Fore Sul 13 Medi 2020 wrth i ni ddychwelyd i'r Priordy ar gyfer oedfa am y tro cyntaf er chwe mis! Er bod y croeso'r un mor dwymgalon ag arfer roedd yn wahanol y tro hwn gyda'r stiwardiad wrth y fynedfa'n gwisgo fisor ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio hylif diheintio dwylo ac yn cofrestru cyn i ni fynd i mewn i'r capel. Fe'n tywyswyd yn drefnus i eistedd yn ein seddau gan sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol yn unol â'r rheoliadau. Erbyn 10 o'r gloch roedd y capel – ar y llawr a'r galeri – yn llawn, yn gynulleidfa gynhwysol yn cynnwys rhieni a phlant ac eraill ohonom!

Wedi gair o groeso ar ddechrau'r oedfa, bu cyfle i ni wrando ar ddau emyn tra oedden ni'n gwylio testun fidio'n olrhain gweithgarwch amrywiol ein Gofalaeth yn ystod y clo mawr. Er i'r capeli fod ar gau nid felly'r eglwys a'r testun fidio'n dangos y math o bethau sy'n bosibl yn nannedd anawsterau wrth geisio addoli Duw yn y cyfnod clo.

Mae'n gonsŷrn mawr i'n Gweinidog nad yw'r amgylchiadau presennol yn caniatáu i ni gynnal ein hystod lawn o weithgareddau ar gyfer ein plant a'n pobl ifainc. Does dim modd cynnal Ysgol Sul a chyfarfodydd PIP (Pobl Ifanc y Priordy) ar hyn o bryd, er enghraifft, ond bydd ein Gweinidog yn sicrhau fod pob oedfa yn oedfa deulu hyd nes y daw tro ar fyd.

Hoeliodd ein Gweinidog sylw'r plant drwy lafar a llun ar hanesyn y Môr Coch yn hollti wrth i Foses arwain yr Israeliaid i ddiogelwch rhag yr Eifftiaid. Mae'r hanesyn yn dangos sut y llwyddodd Moses, gyda chymorth Duw, i oresgyn rhwystrau wrth amddiffyn ei bobl. A thrwy droi at Dduw am gymorth heddiw gallwn ninnau ganfod ffyrdd newydd o gynnal ein gweithgareddau eglwysig yng nghanol helyntion Gofid-19. Bu'r plant wrthi wedyn yn eu seddau'n gweithio ar daflenni gweithgarwch weddill yr oedfa.

Darllenodd Meleri Llwyd O'Leary o Lyfr Eiseia - Pennod 43 (16-23), darn sy'n cyfeirio at yr ecsodus o'r Aifft a ble mae Eiseia'n herio'i bobl i groesawu ffyrdd newydd o ddyfnhau'u perthynas â Duw yn hytrach na hel atgofion am y gorffennol a meddwl am beth ddigwyddodd o'r blaen. Cydiodd ein Gweinidog yn hyn yn ei myfyrdod wrth drafod ein sefyllfa ni heddiw. Esboniodd fel y cawsom ein herio i wneud a chofleidio ffyrdd newydd wrth rannu'r Efengyl ac addoli Duw yn ystod y cyfnod clo. Mae'n bwysig i ni geisio peidio â llithro'n ôl i hen rigolau wrth i'r cyfnod hwn lacio ychydig. Dyw hyn ddim yn golygu anghofio'r gorffennol ond yn hytrach gydio yn y ffyrdd newydd a'r bywyd newydd

mae Duw trwy Iesu yn eu cynnig i ni. Mae'n gyfnod heriol i'r Eglwys Gristnogol a'n braint yw croesawu'r newydd a chroesawu Crist o'r newydd hefyd.

Yn dilyn gweddi amserol gan ein Gweinidog daeth ein hoedfa i ben wrth i ni gydadrodd y Weddi Apostolaidd. Gadawodd pawb y capel yn ôl cyfarwyddyd y stiwardiaid ac i sain datganiad Iwan Evans ar yr organ. Bu cyfle i ni gyflwyno'n rhoddion wrth ymadael. Roedd hi'n fore emosiynol a bendithiol iawn ar lawer cyfrif a phawb yn gwerthfawrogi'r cyfle a gafwyd i ddod ynghyd i gydaddoli uiwaith eto ar ôl cyfnod morfaith.

ROEDD ein Gweinidog wedi paratoi fersiwn ddigidol o'r oedfa ar gyfer y rhai sy'n parhau i hunanynysu. Diolch am y dechnoleg newydd sy'n cyfrannu cymaint at ein cadw ynghyd ar adeg mor anodd i lawer.



CÔD QR Y GIG YN EIN CAPELI AR GYFER ATAL Y CORONAFEIRWS

Mae capeli'r Ofalaeth wedi ymuno â'r gwasanaeth hwn ac wedi creu côd QR i'w arddangos ym mhob capel.

Lawrlwythwch ap Covid-19 y GIG.

Sganiwch y côd QR sydd ar y byrddau arddangos yng nghyntedd y tri chapel. Mae cod unigryw i'r tri capel.



Mae hyn er mwyn ein helpu i olrhain ac atal lledaeniad y coronafeirws

**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**



Mari Morgan...

Gair i ddweud diolch am y gofal.

DECHREUODD y cyfan gyda'r clo a neges ar *Facebook*. Er fy mod yn wreiddiol o Lanelli, rwy'n byw yn yr Unol Daleithiau, ar ochr ddwyreiniol talaith Pennsylvania, tua dwy awr a hanner o fwrllwm Efrog Newydd.

Dyna lle'r oeddwn wrth fy nghyfrifiadur un bore yn prysur fecso am Mam yn Llanelli, ac yn chwilio am wybodaeth am sefyllfa'r clo yn Sir Gaerfyrddin. Roeddwn wedi bwriadu dod draw i Lanelli ar ddechrau mis Mawrth eleni, ond oedais oherwydd y pandemig ac roedd yn rhy hwyr, a dyna fi yn *stuck*. Mam a finnau ar ddau gyfandir a ninnau wedi cyfarwyddo â'r ffaith fy mod i'n medru hedfan yn hwylus ddigon o un wlad i'r llall. Gadael amser swper a chyrraedd Llanelli, ran amlaf, erbyn amser te drannoeth.



Beth oedd y bobl yn ei ddweud ar *Facebook*? Un o'r *posts* cyntaf i ymddangos oedd un gan Beti-Wyn. Roedden ni'n dwy'n *ffrindiau* ers tipyn, o'r cyfnod pan fu fy nhad yn sâl. Rwy'n parhau i gofio gweld Beti-Wyn a Dad yn eistedd yn yr ardd - ar y patio - yn siarad am gyflwr capeli Cymru a'r weinidogaeth. Dau weinidog yn trafod eu testunau a finne'n dod â the a chacen i'w bwydo!

Fe ddaeth y neges am Oedfa'r Sul oedd i ddod yn fyw ar *Facebook*.

'Mam, ma' Beti-Wyn yn cynnal oedfa dros y wê!'

Diwrnodau cyn i'r cloi mawr ddechrau, aeth fy chwaer Nest ar ras o'i chartref yn Surrey i Lanelli at Mam i geisio dod i pethe'n barod ar ei chyfer. Diolch i'r drefn, fe ddaeth Nest ag un teclyn gyda hi sy wedi bod yn hynod o werthfawr i ni i gyd. Sgwaryn bach, dim ond deg modfedd a hanner sydd wedi cadw coridor agored i ni i gyd,



sef yr iPad newydd sbon. Dim ond un *app* oedd yn bwysig i ni yn y misoedd cyntaf, sef y *FaceTime* amhrisiadwy. Gyda'r iPad ar ford y gegin a chadair i Mam - roedd y ddwy ohonom yn gweld ein gilydd ac yn cael trefn ar ein byd.

Sut oedd dangos yr Oedfa i Mam? Dyna'r cwestiwn. Rhaid oedd troi'r iPad ar y ford i weithredu fel teledu. Defnyddio *laptop* a dau iPad - wel, fe welwch oddi wrth y llun i ni lwyddo!

Sul y Mamau oedd y gwasanaeth arbennig cyntaf gyda Beti-Wyn a'i merched yn y Priordy yng Nghaerfyrddin. Fel arfer *Sul y Mamau* America y byddai i'n ei ddathlu gyda Mam yn mis Mai. Ond eleni, ym mis Mawrth cawsom y dathliad gorau gyda'n gilydd. Ymuno â'r Oedfa dros *YouTube*, ac er gwacter ac eco'r capel gwag, roedd yna agosrwydd a sicrwydd yn nhinc cyfarwydd llais a geiriau Beti-Wyn. '*Bendithia di yr oedfa hon*', oedd cân yr intrada – a thawelwch a bendith a gawsom gyda'n gilydd.

Athrawes oedd Mam cyn ymddeol ac mae hi bob amser yn hoff o weld plant yn cymryd rhan. Fel gwraig i weinidog, trefnodd niferoedd dirif o wasanaethau ac roedd wrth ei bodd i dderbyn fideo oddi wrth blant Yr Ofalaeth a hwythau'n danfon eu negeseuon lliwgar a chalonogol at yr henoed. '*Mae'n codi calon*,' meddai Mam ar y pryd. Dyna neis oedd gweld ei gwên yn y foment 'na.

Fe ges i fy nghodi yng nghapel Soar, Llanelli ond mae'r drysau wedi cau ers sawl blwyddyn bellach, a nawr mae Mam yn mynychu Capel Als, Llanelli. Ond yn ystod y clo doedd dim cwrdd, ac felly roedd oedfaon Beti-Wyn a'r Ofalaeth yn hynod o bwysig - ac maent yn dal i fod hyd heddiw.

Oedfaon y Pasg ddaeth yn arbennig wedyn - Sul y Blodau, Bore'r Grogolith, a Sul y Pasg, a lleoliad y gwasanaethau wedi symud i ystafell fyw Beti-Wyn. Y cynhyrchiad a'r effeithiau arbennig yn dod yn fwy soffistigedig bob wythnos, diolch i ddawn a chyfraniadau Sara ac Elin. Mae'n anodd dal sylw cynulleidfa, a chofiaf ambell nos Sul pan oeddwn yn ferch yn Llanelli yn teimlo fy meddwl yn crwydro ymhell, tra oeddwn yn eistedd yn barchus yn y sedd gyda Mam a gweddill y teulu. Ond nid felly nawr gyda'r darllediadau yma. Tafodiaith naturiol yn siarad un-ag-un â ni a'r rhediad yn llyfn, yn cydnabod cyfnod neilltuol mellthiol y feîrws, yn ergydiol ac yn dda. Hyn oll yn cyfrannu at effeithiolrwydd y defosiwn syml o rannu'r elfennau – Y Cymun, *homemade* – bara a dŵr (yn lle gwin) gyda ni, tra oedd Beti-Wyn yn

gweddio â chroes yn ei llaw, a blodau ffres ar y lle tân. Gan fod y gwasanaeth ar *YouTube*, a finne bum awr wedi amser Cymru, cafodd Mam a fi wrando a gwylio gyda'n gilydd - ac yng nghanol y cyfan tynnu llun bach cloi a'i ddanfôn at Beti-Wyn fel roeddem wrthi. Yn ôl ei harfer, hithau'n ymateb yn syth. Dyna oedd teimlad o agosrwydd y foment. Miloedd o filltiroedd wedi diflannu ac am eiliad fach daeth heddwch meddwl ac aeth ansicrwydd yn angof. Dyna beth oedd iechyd!



Wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen, daeth Mam a fi i deimlo fel aelodau anrhydeddus o Ofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin. Rydym ar y rhestr sy'n derbyn ebyst wythnosol gan Beti-Wyn, a'r ddolen i'r Oedfa ar *YouTube*. *Papur Priordy* ddaeth wedyn ar Facebook, a hanes y cylchgrawn oedd ar y ffordd i'r aelodau. Erbyn heddiw, mae Mam yn derbyn copi papur drwy'r post yn Llanelli a finnau'n mwynhau un digidol yma yn yr Unol Daleithiau. Cawn gymaint o destunau a storïau i ni eu trafod gyda'n gilydd tra ydyn ni'n dal i sgwrsio wrth ford y gegin ar *FaceTime*.

Mae yna gymaint o dalent gyda Beti-Wyn yn yr Ofalaeth,' medd Mam.

Fel pob arweinydd da, daeth Beti-Wyn â mwy o bobl yr Ofalaeth i mewn i gymryd rhannau blaenllaw. Oedfa Blant, Sul Cymorth Cristnogol, lluniau a fideos o'r ardal a'r strydoedd tawel - ond y lleisiau bob amser yn cynnal y neges ddilys.

Mae Mam bellach yn gyffyrddus iawn yn gwylio'r gwasanaethau ar ei phen ei hunan. Mae'n agor yr ebost i wrando ar yr Oedfa yn ei hamser ei hunan pan fo'r tŷ'n dawel. Mae'r cylch gwylio yn ehangu hefyd – Mrs Margaret Evans, cymdoges a ffrind Mam; Dafydd, brawd Mam yn y Bont-faen; ac Elin ei chwaer ym Mhont-iets. Fe aeth Margaret â'i iPad gyda hi i Ysbyty Glangwili tra oedd yn cael triniaeth yno er mwyn cadw mewn cysylltiad, ond efallai'n fwy pwysig, er mwyn rhannu yn oedfaon Beti-Wyn.

Amrywiaeth i'r llygad a gafwyd wrth i'r stori droi at neges heriol '*Black Lives Matter*'. Wedi i George Floyd gael ei ladd yn Minneapolis, yn yr Unol Daleithiau, roedd y wlad mewn cynnwrf gyda theimladau'n friw a'r emosiynau'n fregus iawn. Dymchwel cofgolofnau yma fel ag ym Mhrydain, a yna sôn am rai cymeriadau yng Nghaerfyrddin. '*Mae'n*

werth i ti edrych ar yr Oedfa heddi', medde Mam. Beti-Wyn yn cydnabod y sefyllfa gyfoes ac yn ein tywys ni ar daith o gwmpas yr ardal i gofio am bobl a fu'n byw yno, a'r cyfraniadau a wnaethant i'n byd. Ffilm o'r môr yn llifo rhwng Llansteffan a Glan y Fferi a hynny yn fy atgoffa am y cysylltiad agos rhwng Cymru a'r cyfandir ar draws Môr Iwerydd, ac ymdeimlad o lonyddwch yn ymgartrefu yn fy nghalon.

'Roedd hi ar ben y tryc!' le, y 'drive-in', 'na beth oedd hwyl i'w weld. Mae'n gweithio'n galed iawn,' medd Mam.

Odi wir, ac mae'n dyled ni'n fawr iawn i Beti-Wyn a thîm gweithgar Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin. Trwy'ch caredigrwydd fe fu'n bosib i Mam a fi, a Dafydd, Elin a Margaret (a Margot yn Seland Newydd) gael cysur a bendith drwy addoli gyda chi, mwynhau'r amrywiaeth ysgafn, a derbyn o gariad yr Ofalaeth a chael modd i fyw.

Rydym yn dal i wrando a gwyllo, ac yn edrych ymlaen at gael ymuno â chi bob dydd Sul. Daliwch ati. Fe ddown am dro i'ch gweld ryw ddiwrnod a mawr fydd ein boddhad. Diolch o galon i chi i gyd, ac fel bydde Dad bob amser yn cloi sgwrs neu ebost -



Pob bendith.

Mari

Diolch yn fawr iawn i Mari am yr erthygl ddifyr hon. Mae Mari'n ferch i'r diweddar Barchedig E D Morgan, gweinidog ffyddlon a blaengar iawn gyda'r Annibynwyr am flynyddoedd lawer. Ein dymuniadau da i Mari a'i Mam a'r teulu cyfan.



DARLLENIADAU



Mis Hydref	Darlleniad
Wythnos 1	Salm 19
Wythnos 2	Salm 106:1-6,19-23
Wythnos 3	Salm 99
Wythnos 4	Salm 90:1-6, 13-17

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

GWILYM A MYFANWY JONES
RHIAN EVANS
IRIS OWEN
JOHN A CARYS GREEN
GWENDA EDWARDS (Bow Street)

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES
Trysorydd


☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



YN DYMUNO CYFAMODI?

DENNIS JONES
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Croeso i chi gysylltu ag e!



DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Er Gwybodaeth

Cynhaliwyd Cwrdd Diaconiaid y Priordy ar Zoom ar
Nos Fercher 30 Medi 2020

DIWRNOD GWISGO COCH

Bob mis Hydref mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cynnal **Diwrnod Gwisgo Coch!** Yng Nghymru, bydd y chweched Diwrnod Gwisgo Coch blynyddol yn cael ei gynnal ar **Ddydd Gwener 18 Hydref 2020.**



Mae'r Diwrnod Gwisgo Coch yn ddiwrnod cenedlaethol o weithredu sy'n annog ysgolion, busnesau ac unigolion i wisgo coch a chyfrannu £1 tuag at addysg wrth-hiliol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae pob ceiniog a godir yn helpu'r ymgyrch i weithio gyda mwy a mwy o bobl ifanc ac oedolion ar draws y Deyrnas Unedig i herio hiliaeth yn ein cymdeithas.

Mae'n anodd diffinio'n hollol beth yw hiliaeth ond yn ei ystyr symlaf mae'n golygu tybio bod rhai grwpiau ethnig yn uwchraddol ac eraill yn israddol. Caiff y greddo hon ei chysylltu'n aml â lliw croen neu fân wahaniaethau corfforol sy'n amlwg weithiau rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Dyw hiliaeth ddim bob amser yn gysylltiedig â lliw croen ychwaith ond gyda gwahaniaethau diwylliant, ethnigrwydd, cred grefyddol neu iaith.

Mae hiliaeth yn gallu mynegi'i hunan mewn amryw ffyrdd, yn cynnwys sarhau rhywun yn eiriol hyd at ymosod yn gorfforol ar berson neu eiddo. Mae yna hefyd wahaniaethu hiliol, fel peidio â rhoi swydd neu le i rywun oherwydd ei hil, ei liw neu'i genedligrwydd ac am ddim rheswm arall (sy'n anghyfreithlon) a hiliaeth sefydliadol pan fo trefnau a pholisïau sefydliad neilltuoel yn creu anfantais i bobl o leiafrifoedd ethnig.

Mae pobl o bob lliw a chroen yn gallu cael eu sarhau'n hiliol. Mae pobl wyn hefyd yn gallu cyfeirio hiliaeth at bobl wyn eraill. Ond mae pobl wyn yn sicr yn derbyn llai o hiliaeth na phobl Ddu neu Asiaidd. Y math mwyaf cyffredin o hiliaeth yn erbyn pobl wyn yn y Deyrnas Unedig yw yn erbyn ceiswyr lloches, teithwyr neu bobl yn mudo o Ddwyrain Ewrop.

Diolch i ddeddfau cydraddoldeb ac amrywiaeth mae bywydau pobl

ddu a lleiafrifoedd ethnig wedi gwella. Eto i gyd, mae pobl o gymunedau **BAME** [Black, Asian and Minority Ethnic] yn parhau i wynebu gwahaniaethu. Mae effeithiau negyddol anghymesur COVID-19 wedi cael effeithiau negyddol ar gymunedau BAME ac mae'n edrych yn debygol y byddant yn cynyddu ac yn gwaethygu anghydraddoldeb.



Trwy hanes, mae llawer o bobl wedi bod yn ymgyrchu i geisio atal hiliaeth. Mae hynny wedi arwain at welliannau gyda llawer o wledydd wedi gwneud hiliaeth yn anghyfreithlon.

Sefydlwyd yr elusen **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (DCCH)** ym mis Ionawr 1996, yn rhannol drwy haelioni **Shaka Hislop**, gôl-geidwad Newcastle United ar y pryd. Mae

Hislop yn Llywydd Anrhydeddus yr elusen erbyn hyn. Tyfodd DCCH i fod yn brif elusen addysg gwrth-hiliaeth y Deyrnas Unedig. Mae sawl swyddfa gan yr elusen yn Lloegr a changhennau yn yr Alban a Chymru, Mae **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru** yn ddiwyd ac yn anelu at fynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion ac yn y gymdeithas.



Yn ôl ymchwil diweddaraf yr elusen, sef ***Hiliaeth yng Nghymru? Archwilio Rhagfarn yn y System Addysg yng Nghymru (Mai 2020)***,

mae hiliaeth mewn ysgolion ledled Cymru'n gyffredin ac yn cynyddu a'i bod yn debygol bod athrawon a staff cymorth dysgu'n tanamcangyfrif y sefyllfa'n fawr. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil ar **www.the redcard.org**



Betty Campbell (1934-2017) oedd y person du cyntaf i fod yn bennaeth ar ysgol yng Nghymru, sef Ysgol Gynradd Mount Stuart yn Nhrebiwt, Caerdydd. Cyflawnodd y gamp honno er i athrawes ddweud wrthi na allai merch ddu o ddosbarth gweithiol fyth freuddwydio am gyrraedd uchelfannau academiaidd! Daeth ei hysgol yn dempled

ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer arfer dda mewn addysg amlddiwylliannol. Trefnwyd i gerflun cyhoeddus ohoni (drwy bleidlais gyhoeddus) gael ei godi yn Sgwâr Canolog Caerdydd - y cyntaf o fenyw benodol mewn man cyhoeddus yn yr awyr agored yn ein gwlad. Bu Betty Campbell yn hyrwyddwr amlddiwylliant ei chenedl drwy gydol ei hoes a gweithiodd yn ddiflino dros ei chymuned ym Mhorth Teigr. Roedd yn gofidio hyd y diwedd fod stigma'n dal i berthyn i athrawon croenddu.

Mae addysgu pobl am hliaeth yn y byd chwaraeon yn rhan allweddol o agenda DCCH. Yn arbennig, o gofio'r gwreiddiau a chyfraniad Shaka Hislop, mae'n defnyddio statws ac amlygrwydd pêl-droed a chwaraewyr pêl-droed fel arf i frwydro yn erbyn hiliaeth. A da yw dweud fod **Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin** ar flaen y gad bob tymor yn cefnogi Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.



Rydyn ni'n dal i gael ein brawychu gan ddigwyddiadau hiliol yn ein byd ni heddiw, fel marwolaeth **George Perry Floyd iau (1973-2020)**, y gŵr Affro-Americanaidd a laddwyd yn Minneapolis, Minnesota, Yr Unol Daleithiau ar 25 Mai 2020.

Esgorodd hyn ar brotestiadau byd-eang, yn cynnwys



Protestiadau George Floyd yng Nghymru a ralïau dan faner **Black Lives Matter** yn erbyn anghydraddoldeb a thrais hiliol. A chlywsom yn ddiweddar am y protestiadau mawr yn Wisconsin yn yr Unol Daleithiau wedi i Jacob Blake, dyn croenddu a di-arf, gael ei saethu saith o weithiau yn ei gefn gan unigolion sy'n gweithredu'r gyfraith yn y dalaith.

Mae'r Ffydd Gristnogol yn glir fod pawb yn gyfartal yng ngolwg Duw. Ceir digon o enghreifftiau o Iesu'n trin pawb felly yn y Testament Newydd ac mae gofyn i ninnau geisio cyflawni'n debyg iddo. Onid ein priod waith yw gweithio i sicrhau cymdeithas lle mae pawb o bob hil, ffydd a llun yn cael eu gwerthfawogi'n llawn ac i adeiladu gwlad ble mae pawb yn byw'n gytûn er lles ein plant a phlant ein plant?

Irene Williams...

Opera “My Fair Lady” a’r Priordy

RHWNG 1947-1951, roedd y Parch Cyril Glyndwr Williams yn weinidog ifanc 26 oed yng nghapel Radnor Walk, Chelsea, Llundain. Bu’r capel ar gau ystod yr Ail Ryfel Byd.



Roedd y ddau ohonom yn byw mewn tŷ teras yn Acton ac yn dal trênn daearol i’r capel. Roedd cyflog y Gweinidog y pryd hynny’n £7 yr wythnos. Byddai Cyril hefyd yn rhoi chwe darlith yn y dosbarthiadau nos.

Wedi’r Ail Ryfel Byd, roedd rhyw 60-70 o aelodau yn mynychu’r capel o wahanol ardaloedd. Yn fuan, roedd yn



derbyn aelodau newydd o bob Cymundeb a chyn hir, roedd tua 200, y rheiny’n bobl ifanc wedi symud o Gymru. Nid oeddent am fynd i Gaerdydd gan nad oedd yn brifddinas yr adeg hynny.

Roedd nifer o eglwysi Cymraeg ar gael yn Llundain. Yng Nghapel King’s Cross, roedd y Parch Llywelyn Williams a ddilynodd y Parch Elfed Lewis gyda thua mil o aelodau. Roedd y Dr Ivor Edwards yn capel y Borough gyda thipyn llai o nifer yno.

Yng Nghapel y Bedyddwyr yn Castle Street roedd y Parch James Nicholas. Hwn oedd y capel mwyaf a dyna ble buodd Y Prif Weinidog Lloyd George yn aelod. Yno y priododd un o’i ferched. Capeli eraill gerllaw oedd Capel Jewin a Charring Cross.


Ar y cyrion, roedd ychydig o Gymry a ddaeth yn wreiddiol i weithio mewn ffatrioedd adeg y Rhyfel yn cyfarfod ac yn addoli mewn Neuadd.

Daeth yn un o gapeli Cymraeg Llundain, sef Harrow gyda'r Parch J Idris Jenkins yn weinidog cyntaf arno.

Y Theatr

Ar yr adeg, yn y theatr agosaf aton ni, roedd yr opera **My Fair Lady** yn cael ei pherfformio. Roedd yn cael ei chynnal ar nos Wener a dwywaith ar ddydd Sadwrn. Bu miloedd o bobl yn ei gweld am wythnosau.

Digwyddais weld yr opera ar y teledu yn ddiweddar a daeth yr atgofion hyn yn ôl ataf. Ni fûm yn y theatr yn ei gweld gan fod y tâl mynediad yn rhy ddrud. Pobl gyfoethog roedd yn gallu fforddio mynd i'r sioeau.



Byddai gwagedd tlawd yn casglu briallu yng nghaeau Swydd Caint ar brynhawniau lau. Erbyn nos Wener, byddai'r gwagedd ar risiau'r theatr gyda'u chwe briallen a deilen wedi'u clymu'n bwysi ac yn gweiddi "**FLOWERS FOR YOU LADY**". Byddai'r bobl gyfoethog yn rhoi ryw 2/6, 2/- neu 1/- i'r gwagedd hyn amdanynt a byddent yn eu gwisgo ar eu dillad crand a'u siwtiau. Erbyn nos Sadwrn byddai'r cyfan drosodd nes y penwythnos canlynol.



Byddai arweinydd y gwagedd yn dod at ddrws y capel yn Radnor Walk – *to see the boss* – sef y gweinidog, gan ddweud: *'We would like a service love, can you come Friday at 5 o'clock. We would like to take over the singing, anyone could suggest a song and a hymn at the end'*. Roedd y gwagedd yn ddigon tlawd eu byd ac yn ddi-addysg ond yn dymuno cael gwasanaeth byr yn cynnwys Gweddi'r Arglwydd. Roedd Cyril wrth ei fodd yn clywed y cymeriadau annwyl hyn a'u storïau hyfryd. Doedden nhw ddim yn dymuno unrhyw gydnabyddaieth - dim ond paned o goffi o'r stondin gerllaw.

Symud i Gaerfyrddin yn 1951

Daeth pennaeth newydd i Ysgol y Merched yng Nghaerfyrddin, sef Miss Megan Anthony. Roedd Mr W D Davies, Parc-y-groes, diacon yn y Priordy a Chadeirydd y Cyngor Sir, am i Miss Anthony ddod yn aelod yn Priordy. Daeth atom i'r Elmwydd, sef mans y capel, i loywi'i Chymraeg.

Bu Miss Anthony a Cyril yn siarad a threfnu i ferched fferm dosbarthiadau 4, 5 a 6 gasglu briallu o'r cloddiau ar brynhawn lau a dod â hwy i'r ysgol ar fore Gwener. Byddai athrawes o'r ysgol yn mynd â'r holl flodau i siop losin Mrs Davies a Betty yn Stryd y Frenhines yng Nghaerfyrddin. Mewn ystafell y tu cefn i'r siop, byddai gwragedd y Priordy'n cwrdd â pharatoi chwe briallen a deilen mewn pwysi.

Byddai Betty'n mynd â'r blodau mewn blwch at yrrwr y trê (a oedd yn aelod yn y Priordy) a byddai'n cyrraedd Paddington erbyn 2.30. Byddai aelod o Radnor Walk yn eu derbyn ac yn mynd â'r blwch at wragedd y theatr. Ar y noson honno a thrannoeth bydden nhw'n eu gwerthu a derbyn arian amdanynt.



Gwnaethpwyd hyn drwy fis Ebrill a Mai am ddwy neu dair blynedd nes daeth deddf i ddweud nad oedd hawl casglu blodau gwyllt yn tyfu ar y cloddiau.

ROEDD Mrs Davies a Betty'n aelodau ffyddlon yn Priordy ac mae Rhian Evans ac Iris Owen, ei chwaer, yn cofio'r ddwy pan oeddent yn ifanc.

LANSIO ACADEMI HEDDWCH CYMRU

Ar 21 Medi 2020, sef Diwrnod Heddwch y Byd, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan bob prifysgol yng Nghymru, ynghyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, er mwyn sefydlu Academi Heddwch Cymru.



Pwrrpas yr Academi yw ymestyn traddodiad cryf Cymru o ran hyrwyddo a gweithio dros heddwch. Bydd yn gweithio i roi heddwch yn gadarn ar yr agenda cenedlaethol ac, ar y llwyfan rhyngwladol, yn dod yn rhan o rwydwaith byd-eang sefydliadau heddwch.

COFFI YN EIN CEIR!

Am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan yr Ofalaeth ar Fore Gwener 25 Medi 2020 – ar ddiwrnod dathlu Bore Coffi Mwya'r Byd!



Roedd y trefniadau'n wahanol i'r arfer y tro hwn. Maes Parcio'r Cwys yn Abergwili oedd y Ganolfan a choffi a bisgien / teisen yn ein ceir ac nid wrth y byrddau yn Festri'r Priordy a gafwyd. Ond yr un oedd y brwdfrydedd a'r hwyl! Diolch i Alison Parsons am beidio â rhoi'r ffidil yn y to am eleni a meddwl yn hytrach am ffyrdd dychmygus - ond cyfreithiol - o ddod dros yr anawsterau presennol a achosir gan y pandemig er mwyn parhau i gynnal y bore arbennig hwn.



Wrth y fynedfa i'r maes parcio roedd llygaid barcud Lyn Jones (Bancyfelin) yn cadw golwg ar bethau ac yn sicrhau bod pawb yn bacio'n ôl a pharcio'n deidi gan gadw pellter cymdeithasol! Yno hefyd roedd ein Gweinidog gyda'i phad ysgrifennu'n cofrestru presenoldeb pob un

ohonom yn gydwytbodol iawn.

A phleser oedd cael gwragedd ifanc yr Ofalaeth i weini arnom yn ein ceir – pob un ohonynt mor groesawgar a gofalus wrth eu gwaith. Ar bob cwpan roedd rhif ar gyfer y raffl a hwnnw'n cael ei dynnu'n ddigidol! Oedd, roedd trefn ar bethau, rhaid dweud.


Croesawyd y Cynghorydd Gareth John, Maer ein Tref a'i briod Clare atom gan ein Gweinidog. Gareth yw maer digidol cyntaf Caerfyrddin - y cyntaf i'w urddo mewn cyfarfod Zoom! Cafwyd geiriau perthnasol ganddo ac apeliodd arnom i sefyll yn lleol ac i siopa'n lleol yn ystod y cyfnod heriol hwn Diolchwyd iddo am ei rodd garedig hefyd at yr elusen.

Unwaith eto mae Alison wedi cael hwyl arni ac mae pawb a fu'n cydweithio â hi ym mhob ffordd yn haeddu clod mawr. Diolch hefyd i Glwb y Cwins am ganiatâd i ddefnyddio'r maes parcio a'r gegin. Derbyniwyd dros £1000 hyd yma, gydag addewid o ragor i ddod, at achos teilwng dros ben.



Ifanc@Priordy

Helo bawb! Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel yng nghanol yr hen gyfnod rhyfedd hwn!



Cwrdd Diolchgarwch (gwahanol i'r arfer!)

Bore Sul, 4 Hydref am 10.

Byddwn yn derbyn rhoddion i'r Banc Bwyd.

Bydd yr oedfa yn wahanol i'r arfer!



Ailagor y capel



Cofiwch fod y capel ar agor ar hyn o bryd gyda gwasanaeth i bawb o bob oed bob dydd Sul. Dewch! Bydd yn braf eich gweld! Dim Ysgol Sul am y tro ond fe fydd pob gwasanaeth yn addas ar gyfer y teulu cyfan. Falle

bydd rhaid i chi eistedd mewn seddau gwahanol - hyd yn oed ar y llofft! Methu aros i'ch gweld chi i gyd.

Tan hynny, twdlw, Beti-Wyn xx

Chwilair Y Priordy!

Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau

CAPEL Y PRIORDY

FEU
NDENG GGPW
GYAKGJBIFPAPP
HVWHLNLVPPFPLFBYP
WHIEAFNLXLGBUMTMORF
VTTLIOEANLFXOCIARDYWC
FEMYNAUXZFQNHYGDOFCVW
VBULNI IAGED PYINOG
SELOHD HNKRW XDDEJE
AIIUAROFFTCNOOUWUKOQLMDBA
PXBSSBZGWEDDIOXJDKDNVPMFXB
EALRKAYABBRBQZEXGNYYXKEWO
QXMNPCANNPNPLYSGOLLSULLDEPIGH
CTGUHDAGDWHHNULLIOCBDDQACJDE
EXYCESRPFNRCWNFDMMLUBVGVTE
UOFA ZEEVWGYLXLAGMXE YQSB
USWA RLLLORN MZAQVA SMSI
OGZLZ GULBFUEVUVR QGBNB
EHRVD UWDBP
BYUJMG PLSHRA
EORQULZSZ EYRYHYRVLGSS
KUA IKYQAIBJB OZZUIMOJA
ZULJZXNYZUIGWDBYRMX
BLDYEEJDZHHBYCBYU
WAIRSIDTISWBA
NWZGUJXUN
AVF

ANNIBYNWYR BAND BEIBL BETIWYN CAPEL EMYNAU
GWASANAETH GWEDDIO GWEINIDOG ORGAN PRIORDY TEULU
YSGOLSUL

DISGYBLION YSGOL Y DDERWEN YN MWYNHAU GWASANAETHAU DIGIDOL BETI-WYN



Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 10 Hydref 2020

Bwriad Diwrnod Iechyd meddwl y Byd yw codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl ar draws y byd. Cynhaliwyd y diwrnod hwn am y tro cyntaf ar 10 Hydref 1992.



Mewn unrhyw flwyddyn bydd un oedolyn o bob pedwar, ynghyd ag un plentyn o bob deg, yn dioddef o un o gyflyrau neu anhwylderau iechyd meddwl. Gall y cyflyrau hyn effeithio ar filiynau o fywydau.

Mae'r stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl yn achosi agwedd niweidiol, gan ei gwneud yn anos i'r rhai sy'n cael eu heffeithio ofyn am help.

Amser i Newid Cymru yw'r ymgyrch genedlaethol gyntaf i geisio rhoi diwedd ar stigma iechyd meddwl a'r gwahaniaethu sy'n ymwneud â phroblemau iechyd meddwl.

Mae gwefan Amser i Newid Cymru'n llawn gwybodaeth, tystiolaeth a chynghor ar fynd i'r afael â stigma Gweler

amserinewidcymru.org.uk



rhown ddiwedd ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl

Mae canfyddiadau newydd o arolwg stigma Amser i Newid Cymru yn datgelu bod cynnydd mewn hunan-stigma ymysg y

rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud yn sgil pandemig y coronafeirws. Meddai Lowri Wyn Jones, Rheolwr Amser i Newid Cymru:

Nid yw'n debygol y bydd stigma a gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl yn diflannu wrth i Gymru wella o'r pandemig. Mewn gwirionedd, gall y pandemig waethygu stigma a hunan-stigma, felly mae'n bwysicach nag erioed bod Amser i Newid Cymru'n parhau i gefnogi hyrwyddwyr, cymunedau a chyflogwyr i herio stigma a chreu diwylliant o newid er mwyn sicrhau y gall pobl

gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt.

Gall problemau iechyd meddwl effeithio ar unrhyw un, unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn, ond mae **10 Hydref** yn ddiwrnod gwych i ddangos ein cefnogaeth i well iechyd meddwl a dechrau gofalu am ein lles personol. Y ffordd orau o ddelio â stigma yw drwy ffeithiau a gwell dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl. Gobeithio y bydd 10 Hydref yn gam ymlaen yn y cyfeiriad hwn. Wedi dweud hynny, mae iechyd meddwl yn bwysig i ni bob dydd wrth gwrs. Nododd arolwg Amser i Newid Cymru hefyd fod hunan-stigma'n cyflwyno her sylweddol i bobl sy'n wynebu problem iechyd meddwl, a bod 54% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi gwaethygu ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau. Mae digon o waith i'w wneud o hyd felly!



Western Mail - Journal Sut Newyddion?	
Y TYST Sut Newyddion?	
50c y rhifyn!	Cyswllt: Sulwyn Thomas

CRISTION



Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydfurfiol ac Anglicanaidd. Mae'n cynnwys erthyglau ar destunau Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfrau, llythyron a chystadlaethau

Pris: £1.50 Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas

MWG TE EVAN ROBERTS

MAE'N siŵr eich bod chi'n gyfarwydd â gweld platiau a mygiau gydag ysgrifen neu lun arnyn nhw sy'n nodi rhyw ddathliad neu ryw achlysur arbennig. Mae'n bosibl bod rhai o'r rhain gyda chi.

Mae gen i sawl un, gan gynnwys Plât Capel Closygraig 1754 - 2004 i ddathlu deucanmlynedd a hanner sefydlu'r achos a llun o'r capel ble ges i fy nghodi. Yna, Cwpan Glas gyda'r ysgrifen '*Dathlu Canmlwyddiant Ysgol Penboyr 1866 - 1966*', ac fe gyhoeddodd y pwyllgor lleol fwg te arbennig iawn gyda'r geiriau '*Pentref Diwylliant Dre-fach Felindre 2019*' gyda llun o ddafad arno am fod y fro'n enwog am ei ffatrioedd gwlân.

Roeddwn i dan yr argraff mai ffurf o nodi digwyddiadau ac achlysuron ein dyddiau ni oedd creu mygiau a phlatiau, tan i mi weld yn llyfr Andrew Green '*Wales in 100 Objects*' fod rhai fel hyn yn boblogaidd dros gan mlynedd yn ôl, ac i boblogrwydd y pregethwr a'r diwygiwr **Evan Roberts** adeg Diwygiad 1904-5 fod yn rhan o hynny.



Evan Roberts oedd prif arweinydd y diwygiad Cristnogol hwnnw. Ganwyd ar 8 Mehefin 1878 a bu farw ar 29 Ionawr 1951. Wedi'i eni yng Nghasllwchwr bu'n löwr cyn mynd i astudio am y weinidogaeth yng Nghastellnewydd Emlyn. Cafodd brofiad arbennig o glywed y diwygiwr Seth Joshua ym Mlaenporth ger Aberporth. Dechreuodd annerch cyfarfodydd ac mewn byr amser roedd e'n denu miloedd i wrando arno. Hwn oedd y diwygiad mawr diwethaf i ni, genedl y

Cymry, ei weld hyd y dydd heddiw, a does dim byd wedi dod yn agos i'r gwynt a chwythodd drwy Gymru gyfan dros ganrif yn ôl bellach.

Hwn oedd y diwygiad cyntaf i'r cyfryngau poblogaidd chwarae rhan ynddo. Roedd y *Western Mail* a'r *South Wales Daily News* yn

chwarae rhan allweddol yn gwasgaru'r newyddion fod diwygiad yn y tir. Credir bod o leiaf 100,000 o bobl wedi dod yn Gristnogion yn ystod y diwygiad, ac oherwydd poblogrwydd Evan Roberts gwerthwyd mygiau te gyda'i lun a'i enw arnyh nhw.


Yn 2004 llwyddwyd i ailgreu a chynhyrchu'i lais oddi ar silindr o gŵyr gwreiddiol sydd bellach yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae un o fygiau prin Evan Roberts yn ddiogel mewn cas gwydr ac yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa Sir yn Abergwili. Ni fydd yr amgueddfa ar agor tan y gwanwyn nesaf gan fod to newydd yn cael ei osod ar Blas yr Esgob a'r arddangosfeydd y tu mewn yn cael eu had-drefnu. Pryd fuoch chi am dro i'r amgueddfa hon yn Abergwili ddiwethaf?



MAE'N bosibl y gall Cymdeithas y Priordy drefnu i ymweld â'r

Amgueddfa ar ei newydd wedd y flwyddyn nesaf a chael cyfle i weld mwg Evan Roberts ymhlith y trysorau eraill sydd yno. A beth am wahodd rhywun i sgwrsio am Evan Roberts ei hun a diwygiad 1904-5? Pam lai?



WALDO WILLIAMS

Dan awduraeth
Alan Llwyd a Robert Rhys

Gomer: £25

Medi 2020

Casgliad cyflawn o holl waith
Waldo Williams

Cwrdd Gweddi

Nos Lun, 5 Hydref 2020
am 7 dros Zoom



Dewch â gweddi, emyn, darlleniad,
neu dewch i wrando'n unig.

Dim pwysau ar neb i gyfrannu.
Eich cwmni sy'n bwysig i ni.

Byddwch yn derbyn dolen Zoom yn
nes at yr amser

Bydd ein Gweinidog yn agor y Cwrdd Gweddi ac yna'n
gadael y cyfarfod yn agored i eraill i gyfrannu
darlleniad, gweddi, emyn ac yn y blaen.

Does dim rhaid i chi gymryd rhan, gallwch ymuno a
manteisio ar gyfle i fyfyrio neu weddio'n dawel

TUDALEN BLAEN

Rheswm Angharad Wyn dros ddewis O Dad yn deulu dedwydd....

Bues i'n pendroni am sbel ynghylch pa eiriau i'w dewis ar gyfer yr erthygl yma. Mae sawl cerdd yn bwysig i mi a dw i wrth fy modd â sawl emyn, felly roedd nifer o'r rheiny yn y ras hefyd!



Greta Marged, y ferch hynaf sydd bron iawn yn dair oed, wnaeth roi'r ysbrydoliaeth i mi ddewis y geiriau yma. Mae hi newydd ddechrau mynychu Cylch Meithrin Llangynnwr (ac i weld yn mwynhau hyd yma!). Daeth hi adref yr wythnos ddiwethaf a dechrau canu rhywbeth nad o'n i wedi'i chlywed yn ei ganu o'r blaen... rhywbeth digon syml ydoedd a'r geiriau oedd *"diolch i Dduw, diolch i Dduw, diolch i Dduw am y bwyd bob dydd. Amen"* ac yna *"hwre"* mawr swnllyd ar ei ddiwedd!! Esboniodd Greta eu bod yn cael bwyta'r tost a'r ffrwythau ar ôl canu hwn yn y Cylch Meithrin.

Mae'n arferiad yn ein tŷ ni i ddweud *"diolch am y bwyd"* ar ôl pob pryd ond dydyn ni erioed wedi dweud gras cyn bwyta, felly o'n i'n falch iawn i glywed Greta yn canu'r geiriau hynny yn y Cylch Meithrin gyda'i ffrindiau bach.

Gwnaeth hyn i mi feddwl nôl i fy nyddiau ysgol i, ac yn fwy penodol i fy amser yn yr ysgol gynradd, sef Ysgol Griffith Jones, Sanclêr. Yr hyn fyddai'n cael ei ddweud cyn amser cinio yn yr ysgol oedd:



*O dad, yn deulu dedwydd- y deawn
Â diolch o newydd,
Cans o'th law y daw bob dydd
Ein lluniaeth a'n llawenydd.*

(Geiriau o waith **W D Williams**, englyn a ysgrifennodd ar gyfer Eisteddfod Llawr Dyrnu'r Sarnau yn Rhagfyr 1941. Roedd yn brifathro yn Y Bermo ar yr adeg hynny. Mae nifer yn dueddol o ddweud *"o'r newydd"* yn yr ail linell ond *"o newydd"* oedd dymuniad W D Williams.)


Dwi'n cofio ein bod fel dosbarth yn gallu hedfan drwy'r englyn yma fel petaen ni ar ras i gyrraedd y neuadd i gael bwyd cyn i'r cwbl ddiflannu. Wrth gwrs, doedd hi ddim yn talu ffordd i'w ddweud yn rhy gyflym oherwydd mai ei aiadrodd yn arafach fyddai rhaid i ni ei wneud wedyn!!

Mae gen i atgofion hyfryd am yr ysgol, gan gynnwys yr amserau cinio ar ôl dweud ein gras. Galla i gofio sawl pryd.... y semolina a'r sbwnj gyda jam a chneuen goco ar y top ond y jam roli poli a chwstard dwi'n credu oedd y ffefryn! (Ydy hi'n amlwg bod dant melys gen i tybed?!)

Mae rhannu pryd bwyd gyda rhywun yn rhywbeth arbennig; mae'n gwneud i chi deimlo fel eich bod yn perthyn ac yn rhan o gymuned. Mae eistedd i fwyta gydag eraill yn datblygu'n sgiliau cymdeithasol ac yn gyfle i drafod pethau sy'n ein poeni. Mae gwyddonwyr wedi profi bod eistedd i lawr gydag eraill amser bwyd yn llesol i'n hiechyd meddwl ni hefyd.... yn wir, mae ein lluniaeth a'n llawenydd ni'n cydfynd â'i gilydd.

Dros y misoedd diwethaf, dwi'n siŵr ein bod ni i gyd wedi sylweddoli beth sy'n wirioneddol bwysig i ni. Dw i'n edrych ymlaen gymaint at gael rhannu bwrdd a phryd o fwyd gyda ffrindiau a theulu estynedig unwaith eto. Boed i ni fyth gymryd yn ganiataol cael "*cwrdd am goffi cloi*" gyda ffrind eto. Daw y dydd pan fyddwn ni i gyd yn ôl o amgylch yr un bwrdd ond tan hynny, "*lechyd Da*" i chi!



	BYD A'R BETWS Elfyn Llwyd Y Lolfa: £9.99 Dyddiad Cyhoeddi Hydref 2020 <i>Atgofion y cyn Aelod Seneddol Elfyn Llwyd (Meirionnydd Nant Conwy a Dwyfor Meirionnydd)</i>
---	--

LLONGYFARCHIADAU I CATRIN!

Ar Nos Wener, 18 Medi 2020, cynhaliwyd Gwasanaeth Ordeinio Catrin Ann Tomos yn Weinidog i Iesu Grist yng Nghapel Providence, Llangadog.


Mae Catrin eisoes wedi dechrau fel Gweinidog yn ei gofalaeth newydd, sef eglwysi Providence a Bethlehem Llangadog, Cyfundeb Dwyrain



Caerfyrddin a Brycheiniog, a'r gobaith yw y bydd modd cynnal ei Chwedd Sefydлу yn y dyfodol agos.

Roedd y Gwasanaeth a'r Ordeinio yng ngofal Y Parchedig Aled D Jones a fu'n hyfforddi Catrin yng Ngholeg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Cyflwynwyd Gweddi'r Ordeinio gan y Parchedig Beti-Wyn James. Hi hefyd oedd wedi cyfansoddi Emyn yr Ordeinio a gydadroddwyd yn ystod y gwasanaeth.

Oherwydd y cyfyngiadau presennol, nid oedd y gwasanaeth yn gallu bod yn agored i bawb. Ond cafodd ei ffilmio gan Beti-Wyn a'r testun fidio bellach ar gael i'w ddangos i aelodau newydd Catrin.



Ein dymuniadau gorau i Catrin. Fe gofiwch iddi dreulio misoedd hyfryd iawn yn ein cwmni yn ein Gofalaeth pan oedd yn cysgodi Beti-Wyn fel rhan o'i chwrw paratoi. Pob bendith felly i'r Parchedig

Catrin Ann bellach a'i phriod, Y Parchedig Emyr Wyn Tomos.

Yn y llun (o'r chwith i'r dde): Emyr, Catrin ac Aled Jones

MENTERGARWCH LLEUCU!

MAE'N siŵr bod y rhai ohonoch sy'n gwyllo *Heno* ar S4C wedi gweld yr eitem am fenter un o'n haelodau, Lleucu Edwards - person sy'n barod iawn ei help yn ein Hysgol Sul bob amser. Bu Lleucu a Carole Williams o'r Mudiad Meithrin yn sôn ar y rhaglen am y cylch meithrin sy wedi agor yn ein tref, sef **Cylch Meithrin Eco Tywi**. Nid Cylch cyffredin mohono ychwaith! A dyma holi Lleucu ynghylch y fenter ddiddorol hon:



PP: Wel, Lleucu, ti wedi dewis lleoliad da, rhaid dweud, ar gyfer y Cylch!

LIE: Do'n wir! Mae'r Cylch wedi cael ei leoli mewn ystafell yn y Clwb Pel-droed ar Heol y Prior. Mae yna faes parcio i rieni gael parcio ac rydym wrthi'n datblygu'r ardal allanol er mwyn cael lle chwarae a hefyd ardal er mwyn tyfu llysiau a ffrwythau ein hunain.

PP: Mae'r Cylch eisoes wedi agor. Pa fath o blant a theuluoedd rwyt ti'n anelu atynt?

LIE: Rydym yn derbyn plant sy'n 2 oed hyd at oed statudol ysgol ac yn y dyfodol yn gobeithio cynnal grŵp Ti a fi yn wythnosol.

PP: Oes croeso i ddysgwyr?

LIE: Oes mae croeso mawr i ddysgwyr a theuluoedd ail iaith er mwyn cael cyrraedd y targed miliwn o siaradwyr. Byddwn yn dilyn dull y Mudiad Meithrin sef y Dull Trochi.



PP: Beth yw'r oriau agor?

LIE: Rydym ar agor ar hyn o bryd o 9:00 i 1:00 o'r gloch ond yn bwriadu agor drwy'r dydd yn fuan iawn. Yn ystod y cyfnod clo fe gofrestrwyd y cylch gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac rydym bellach wedi cofrestru er mwyn gallu cynnig y gofal 30

awr a gofal di-dreth i rieni. Rydym hefyd yn cynnig gofal cofleidiol sy'n golygu ein bod yn gallu mynd â'r plant i'r ysgol leol neu'r ysgol maen nhw'n ei mynychu. Mae hyn yn gallu bod yn gymorth mawr i rieni.

PP: Wel, nawrte, mae'r Cylch hwn yn wahanol iawn i'r rhai arferol. Elli di esbonio pam?

LIE: Wel, mae'r cylch yn gylch unigryw ac arloesol gan ei fod yn Gylch Eco a di-blastig. Dyma'r cylch meithrin di-blastig cyntaf yng Nghymru. Mae'r holl adnoddau a'r teganau'n bren neu'n garreg neu fambŵ.



Mae'n bwysig iawn i ni hefyd fod y plant yn teimlo'n gartrefol ac yn hapus wrth ddod i'r Cylch ac mae hyn wrth gwrs yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddysgu.

PP: Ardderchog. Sut mae dod i wybod mwy am y Cylch?

LIE: Os oes gan unrhyw rai ddiddordeb i roi enw eu plentyn i lawr neu eisiau gwybodaeth bellach gallant gysylltu drwy ebostio cmtwyi@gmail.com neu ffonio 07551 083187 neu 078877 52424 neu fynd ar ein tudalen facebook Cylch Meithrin Tywi neu edrych ar ein gwefan www.cylchmeithrintywi.com



PP: Un peth i orffen, Lleucu, sut mae'r Cylch yn ymdopi yn ystod cyfyngiadau Covid?

LIE: Mae gennym ystod o bolisiau a gweithdrefnau rydym yn eu dilyn yn y Cylch ac er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn ddiogel rydym yn cymryd eu tymheredd wrth ddod i'r Cylch yn ogystal â golchi eu dwylo.

Wel, da iawn ti, Lleucu, am fentro fel hyn a phob dymuniad da i'r Cylch oddi wrth bawb ohonom yn y Priordy

A WYDDECH CHI?

125 mlynedd yn ôl i'r mis hwn, ar 22 Hydref 1895 y bu farw un o lenorion mwyaf blaengar y 19 ganrif ac arloeswr mawr y nofel yn Gymraeg

Ganed Daniel Owen yn yr Wyddgrug ar 20 Hydref 1836. Cyn iddo gyrraedd dwy oed roedd wedi colli'i dad mewn damwain ym Mhwl Glo Argoed ym 1838. Magwyd yntau a gweddill y plant mewn tldi ac eisiau mawr. Prin oedd yr addysg ffurfiol a gafodd ac roedd yn ddyledus iawn i'r hyn a dderbyniodd drwy'r Beibl a'r Ysgol Sul.



Pan oedd yn 12 oed aeth yn brentis i Angel Jones, teiliwr ac un o flaenoriaid ac arweinwyr y Methodistiaid Calfinaidd yn yr Wyddgrug. Roedd siop y teiliwr yn fagwrfa wych gan fod cyfle yno i drafod a dadlau ynghylch amrywiol bynciau gyda chwsmeriaid a chydweithwyr, yn enwedig materion diwinyddol a gwleidyddol. Magodd Daniel flas at ddarllen a daeth yn gyfarwydd â llenyddiaeth Saesneg. Roedd hefyd yn barddoni gan ddefnyddio'r ffugenw 'Glaslyn' wrth gyhoeddi mewn cylchgronau. a byddai'n cyfrannu hefyd at bapurau Cymraeg a Saesneg.

Dechreuodd bregethu ym 1864. Treuliodd gyfnod yng Ngholeg y Bala, sef Coleg y Methodistiaid Calfinaidd, rhwng 1865-67, ond gadawodd cyn gorffen ei gwrs a dychwelyd i siop Angel Jones yn Yr Wyddgrug ac i ofalu am ei deulu. Bu'n deiliwr weddill ei oes gan ddod yn gyd-berchennog ei fusnes ei hun.



Parhaodd i bregethu, ond torrodd ei iechyd a bu rhaid iddo roi'r gorau iddi. Roedd yn aelod yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, lle roedd Y

Parchedig Roger Edwards yn weinidog. Cafodd ei ysgogi ganddo i ddechrau ysgrifennu o ddifrif.


Dechreuodd drwy gyhoeddi rhai o'i bregethau a brasluniau o gymeriadau Methodistaidd dan y teitl *Offrymau Neilltuaeth yn Y Drysorfa*, cylchgrawn dan olygyddiaeth Edwards. Yna, fe'i cymhellwyd gan Edwards i gyhoeddi nofel fesul pennod yn yr un cylchgrawn, sef *Y Dreflan*, a phrofodd yn boblogaidd iawn. Aeth ati'n fuan wedyn i ysgrifennu ail nofel, sef *Rhys Lewis*, ei nofel bwysicaf a ddaeth ag amlygrwydd mawr iddo. Mae'n debyg iddo ddefnyddio elw'r cyhoeddi i godi tŷ newydd ar gyfer ei fam ond bu farw hithau cyn symud i mewn iddo. Nofelau eraill a ysgrifennodd oedd *Enoc Huws* a *Gwen Tomos*. Cyhoeddodd *Y Siswrn*, sef casgliad o gerddi, ysgrifau a storïau a hefyd gyfres o straeon byrion dan y teitl *Straeon y Pentan*. Mae dylanwad bywyd a chymdeithas y capel a phrofiadau siop y teilwr yn drwm ar waith Daniel Owen ac roedd yn llym ei dafod ar yr ymbarchuso a welai mewn Anghydfurfiaeth yng Nghymru yn ei ddydd.

Tua diwedd ei oes gwasanaethodd ar Gyngor Tref newydd Yr Wyddgrug. Fe'i dewiswyd yn Gadeirydd ac, yn sgil hynny, yn Ynad Heddwch ond bu farw'n fuan wedyn.

Mae Gwobr Goffa Daniel Owen yn un o brif wobrau Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Dyfernir y wobwr am nofel yn Gymraeg sydd heb ei chyhoeddi o'r blaen. Sefydlwyd y wobwr yn 1978 a dechreuwyd cynnal seremoni wobrwyo ar lwyfan y Brifwyl ym 1999.

Mae'r gofgolofn i Daniel Owen y tu allan i'r Llyfrgell yn Sgwâr Daniel Owen yn Yr Wyddgrug yn dwyn geiriau'r nofelydd ei hun ar y garreg sail: '*Nid i'r doeth a'r deallus yr ysgrifennais ond i'r dyn cyffredin*'.

Cynhelir Gŵyl Daniel Owen yn flynyddol yn yr Wyddgrug i ddathlu gwaith yr awdur a bydd yn gyfuniad o ddigwyddiadau rhithwir ac awyr agored y tro hwn (17-23 Hydref 2020) oherwydd y cyfyngiadau presennol. Bydd yr Ŵyl yn dechrau drwy osod torch o flodau ym man geni un o fawrion ein cenedl yn Yr Wyddgrug.



PANED A SGWRS

dros

ZOOM

Bore Mercher

14 Hydref 2020

11 o'r gloch

Cyfle i sgwrsio dros baned

Byddwch yn derbyn y ddolen yn nes at yr amser



beibl.net i Bobl Ifanc

**Cymdeithas y Beibl a Youth
for Christ**

(Cyfieithiad: Arfon Jones)

£19.99

Awst 2020

***Testun beibl.net a hefyd stôr o
wybodaeth a ffeithiau
perthnasol i fywydau ieuenctid***

DAL ATI!

**Cofiwch fod y gwasanaethau digidol o
ar y Sul yn parhau ar gyfer y rhai nad
ydynt yn gallu dod i'r Cwrdd ac sy'n
hunanyysu.**


Diolch i'n Gweinidog am sicrhau hyn.



CWRDD A SWPER DIOLCHGARWCH

Siom fawr oedd gorfod gohirio Cwrdd a Swper Diolchgarwch y Priordy am eleni oherwydd Covid-19. Ein gobaith yw ailafael yn y trefniant hwn y flwyddyn nesaf.

Roedd **Y Parchedig Adrian Morgan, Ficer Plwyf Casllwchwr a Gorseinon**, wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â ni eleni ond mae'n dda dweud ei fod wedi cytuno i ddod atom y flwyddyn nesaf. Diolch iddo ac edrychwn ymlaen yn fawr at ei ymweliad â ni yn 2021.



NOT JUST POLITICS

Carwyn Jones
gydag
Alun Gibbard

Headline Book Publishing £20

Medi 2020

*Hunangofiant Swyddogol cyn Brif
Weinidog Cymru*


NA AD FI'N ANGOF

Byw â Dementia

Prydwen Elfed-Owens

£8

***Cyrol sy'n rhannu profiadau
unigolion sy'n gwybod beth yw byw
â dementia***





DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS

Hydrefi		Tachwedd	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Philip Jones	Jayne Woods	Huw Jones



DARLLENWYR




Hydref	4	Y Plant	Tachwedd	1	Y Plant
	11	Elis Jones		8	Wyn Tegryn Evans
	19	Lleucu Edwads		15	June Thomas
	25	Nansi Hayes		22	Alwen Owen
				29	Llinos Jones



CYHOEDDWYR



Hydref	Jayne Woods	Tachwedd	Adrian Evans
--------	-------------	----------	--------------

	OCHR TREFORYS O'R DRE Atgofion drwy Ganeuon Neil Rosser Carreg Gwalch: £8.00 Medi 2020 Prin bod neb wedi gwneud mwy i hybu delwedd Gymraeg a Chymreig Abertawe na Neil. Mae'n frogarwr i'r carn.
--	---



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd ac i'r rhai sy'n gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, sef John Meredith, David Lloyd, Mair Baston a Mwynwen Jones. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Mae wynebaw cyfarwydd i'w gweld o hyd ar **Dechrau Canu Dechrau Canmol** ar **S4C**, fel yn y rhaglen gyntaf yn y gyfres newydd pan aethpwyd â ni i wahanol fannau ar hyd Ffordd y Pererinion ym Mhenrhyn Llŷn. Daeth un o'r emynau o Eglwys San Pedr Caerfyrddin.



Clwysom Tim Hayes yn adolygu'r tudalenau chwaraeon yn y papurau ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru**. Bu'n Gweinidog ac Elinor Wyn Reynolds yn brysor yn cyflwyno **Munud i Feddwl** ar **Radio Cymru** yn ystod y mis. Ac mae newyddion da am Geraint Huw Reynolds, brawd Elinor. Mae'r enwebiadau wedi'u cyhoeddi ar gyfer Gwobrau'r Academi Brydeinig yng Nghymru 2020 sy'n anrhydeddu rhagoriaeth ym maes darlledu a chynhyrchu yn y byd ffilm a theledu yn ein gwlad. Yn eu mysg yn yr Adran Golygu mae Geraint Huw ar gyfer **The Prince and the Bomber** – rhaglen ddogfen yn archwilio'r cyfnod cythryblus yn arwain at yr arwisgo a thwf cenedlaetholdeb Cymreig. Bydd y cyflwynydd teledu Alex Jones yn cynnal seremoni ddigidol ar 25 Hydref (19:00) ar sianeli cymdeithasol BAFTA. Pob dymuniad da i Geraint Huw.



AC I GLOI, llongyfarchiadau mawr i Gareth a Rhian Gravell ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganed bachan, Tom Philip Cudd, i Teleri a Nick Cudd, Foelgastell, ar 28 Medi 2020 yn Ysbyty Glangwili, a brawd bach i Jac Morgan Cudd. Ein cofion cynnes at y teulu bach a phob dymuniad da iddynt.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n
Gweinidog neu Alun Charles

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Mari Morgan, Lleucu Edwards ac Alison Parsons am y lluniau'r mis hwn.



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)


CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gloria ac Adrian Evans ar golli modryb Gloria, sef Bronwen Richards, Abaty'r Ddôl, Caerfyrddin a chynt o Bantcelyn, Horeb ar 3 Medi 2020 yng Nghartref Gofal Erw Hir. Cofiwn hefyd am Geinor a Chris Evans a'r plant. Roedd Bronwen Richards yn fam-gu i Geinor a hen fam-gu i Efa, Cian a Rhys, aelodau yn ein Hysgol Sul. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Mynegwn ein cydymdeimlad â Delyth a Nick Davies a'r plant Jac a Mali ar golli modryb Delyth, sef Gwen Faulkner, Penrhiwllan, ar 5 Medi 2020. Cofiwn am ei gŵr, Ken a'r ddau fab a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Clywsom am golli Alan Ballett, Caerdydd, 19 Medi 2020, sef tad Steve, cymar Alison Parsons. Meddyliwn am ei briod, Marlene, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

Trist oedd clywed hefyd am golli un o'n haelodau ffyddlonaf ar 21 Medi 2020, sef Iris Humphrey Davies, Y Garreg Filltir cyn symud i Gartref Gofal Parc-y-Llyn, Hwlffordd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i mab Ian a'i briod Angela a'r bechgyn. Bydd teyrnged i Iris yn ein rhifyn nesaf.





Y SULLIADUR



Hydref	4	Bore	Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog. Rhoddion at y Banc Bwyd	
	11	Bore	Oedfa Deulu yng ngofal yr Aelodau	
	18	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	25	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Tachwedd	1	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	8	Bore	Oedfa Deulu yng ngofal yr Aelodau	
	15	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	22	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	29	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Oedfa Ddigidol bob Sul ar gyfer y sawl sy'n parhau
i hunanynysu

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul ar hyn o bryd.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau.

COVID-19



Mae'n Gweinidog a'r Swyddogion mewn cyswllt rheolaidd â'i gilydd ac yn monitro'n ofalus unrhyw ddatblygiadau parthed sefyllfa'r Capeli a Covid-19. Mae'r Gweinidog hefyd mewn trafodaethau rheolaidd gydag Undeb yr Annibynwyr.



Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddatblygiadau drwy gyfrwng Tudalennau Gweplyfr y Priordy a Thrydar ac ati



**COFIWCH GYRRAEDD YR
OEDFAON MEWN DA BRYD
OS GWELWCH YN DDA**